# Cyflwyniad i'r alwad am dystiolaeth gan y Pwyllgor Materion Cymreig ar "Etifeddiaeth amgylcheddol ac economaidd gorffennol diwydiannol Cymru"

## Cyflwynwyd gan Gyfeillion y Ddaear Cymru

### 1. Crynodeb

- Nid yw cymunedau yng Nghymru, a helpodd i greu'r cyfoeth a oedd yn pweru'r DU yn y gorffennol, wedi elwa llawer ohono, ond maent yn dal i dalu pris mawr.
- Mae gan lywodraeth y DU rwymedigaeth i dalu am adfer safleoedd ôl-ddiwydiannol peryglus yng Nghymru sy'n dyddio o'r cyfnod cyn datganoli – mae hyn yn cynnwys tomenni gwastraff gwenwynig yn ogystal â thomenni glo.
- Mae gwahaniaeth mawr rhwng faint o arian y mae llywodraeth y DU wedi'i ymrwymo hyd yma i adfer tomenni glo peryglus yng Nghymru (£25m) a'r hyn sydd ei angen i gadw cymunedau a bywyd gwyllt yn ddiogel (£600m).
- Rhaid peidio â chaniatáu i gwmnïau lenwi'r bwlch hwn a gweithredu 'atebion' yn seiliedig ar elw ariannol a allai beryglu diogelwch a lles.
- Heb gyllid digonol gan lywodraeth y DU, gallai diwydiant cloddio glo peryglus arall ddod i'r amlwg yng Nghymru, a fyddai'n drychinebus i bobl a'r blaned ac i enw da'r DU.
- Mae angen ymchwiliad annibynnol ar frys i asesu maint ac effaith tir halogedig yng Nghymru ac effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth bresennol.
- **Mae ymchwil newydd sbon gan Gyfeillion y Ddaear Cymru**, nas cyhoeddwyd eto ond a rennir isod, yn dangos anghysondebau a bylchau sylweddol yn y ddeddfwriaeth bresennol ar dir halogedig, a fyddai'n elwa o sylw'r Pwyllgor.
- Gallai adfer safleoedd cyn-ddiwydiannol ddarparu cyfleoedd cyflogaeth i helpu ein trawsnewidiad gwyrdd a theg a gwella bioamrywiaeth.
- Mae'n rhaid i genhadaeth twf llywodraeth y DU fod â thrawsnewid yn ganolog iddi.

### 2. Pwy ydym ni

Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru yn rhan o Gyfeillion y Ddaear Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, sydd yn ei dro yn rhan o Gyfeillion y Ddaear Ewrop a Chyfeillion y Ddaear Rhyngwladol.

Ein cenhadaeth yw ceisio sicrhau dyfodol cynaliadwy i'n cenedl. Am y pedwar degawd diwethaf rydym wedi bod yn gweithio gyda'n rhwydwaith o grwpiau a chefnogwyr lleol i godi ymwybyddiaeth o natur, hinsawdd a materion amgylcheddol a chyflawni newid cadarnhaol.

Cymunedau sy'n gwneud y lleiaf i achosi'r hinsawdd i gynhesu sy'n dioddef fwyaf ac yn cael y drafferth fwyaf i addasu. Y rhai ar incwm isel, pobl groenliw, a chymunedau y mae eu

bywoliaeth yn dibynnu ar ddiwydiannau carbon-ddwys, sy'n cael eu taro waethaf a bydd angen y gefnogaeth fwyaf arnynt. Gyda'n grwpiau lleol, rydym yn brwydro dros gyfiawnder hinsawdd ac amgylcheddol ac atebion i helpu pobl a'r blaned.

## 3. Pam ydym ni'n cyflwyno'r dystiolaeth hon?

Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru yn ymgyrchu dros adfer hen safleoedd glo brig a'u gwneud yn ddiogel ac yn hygyrch i gymunedau lleol. Rydym yn galw am fwy o gyllid gan lywodraeth y DU i adfer safleoedd etifeddiaeth ddiwydiannol ac ymchwiliad cyhoeddus annibynnol i safleoedd tir halogedig ac etifeddiaeth ddiwydiannol beryglus yng Nghymru.

Rydym yn gweithio'n agos gyda thrigolion ac ymgyrchwyr lleol y mae'r materion hyn yn effeithio arnynt, gan gynnwys yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yn economaidd yng Nghymru, fel cymoedd de Cymru. Mae pobl sy'n byw yma yn fwy tebygol o gael eu heffeithio'n negyddol gan etifeddiaeth amgylcheddol ac economaidd gorffennol diwydiannol Cymru. Er enghraifft, maent yn fwyaf tebygol o fyw ger tomen lo sydd mewn perygl o gwympo, fel yng Nghwmtyleri ym Mlaenau Gwent neu'n agos at hen safleoedd diwydiannol sy'n gollwng cemegau gwenwynig, fel Tŷ Llwyd yng Nghaerffili.

Hoffem rannu mewnwelediadau o'n hymgyrchu, o'n hymchwil ac o drafodaethau yr ydym wedi'u cael gyda grwpiau a chymunedau yr effeithiwyd arnynt.

## 4. Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran mynd i'r afael ag etifeddiaeth amgylcheddol gorffennol diwydiannol Cymru?

Yn y gorffennol roedd y cyfoeth a grëwyd o ddiwydiannau mwyngloddio a dur Cymru yn pweru'r DU.

Mae cymunedau lleol ledled Cymru, yr olaf i elwa ar y cyfoeth enfawr a gynhyrchwyd gan ddiwydiannau mwyngloddio, gwaith haearn a diwydiannau echdynnol eraill, yn dal i dalu pris uchel.

Mae cymunedau ledled Cymru yn byw gydag etifeddiaeth o hen safleoedd diwydiannol sydd wedi'u hadfer yn wael, tomenni glo, tomenni gwastraff gwenwynig a safleoedd tirlenwi sy'n gollwng, sydd oll yn berygl i iechyd y cyhoedd ac yn beryglus i fywyd gwyllt.

Byddai ymrwymiad ar lefel y DU/San Steffan i adfer safleoedd peryglus yn gwneud rhywfaint i unioni camweddau etifeddiaeth hanesyddol Cymru.

### Cyn-byllau glo

Y llynedd, daeth "Adroddiad ar adfer safleoedd glo brig" Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith y Senedd i'r casgliad bod y system bresennol yn methu pobl a'r blaned. Mae'r adroddiad sydd wedi'i eirio'n gryf yn condemnio'r rhestr hir o "addewidion

toredig" ar adfer ac yn dangos model aflwyddiannus o ecsbloetio glo a chymunedau, o bolisïau i orfodi. Mewn ymateb, ailadroddodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i Gymru fod yn genedl ddi-ffosil a dywedodd nad oedd yn credu ei bod yn debygol y bydd sefyllfaoedd tebyg yn codi eto oherwydd eu polisïau presennol. Fodd bynnag, mae Cyfeillion y Ddaear Cymru eisoes wedi gweld cynigion ar gyfer rhagor o gloddio glo brig a chloddio tomenni glo ers yr ymateb hwn, gan danseilio'r sicrwydd hwn. Mae llawer o safleoedd glo brig segur yn parhau heb eu hadfer ac mewn cyflwr peryglus i drigolion megis East Pit a Margam/Parc Slip. Yn safle enfawr Ffos y Fran ym Merthyr Tudful nid yw'r cynllun adfer y cytunwyd arno'n wreiddiol yn cael ei gyflawni ac mae trigolion ac ymgyrchwyr lleol pryderus yn aros i gynllun adfer diwygiedig gael ei chyflwyno gan y perchennog, Merthyr (South Wales) Ltd**.,** tra bod gwagle dwfn peryglus o ddŵr yn llenwi ar y safle.

Mae gan gymunedau sy'n byw yng nghysgod tomenni glo atgofion poenus o drychineb trasig y domen lo yn Aberfan ym 1966. Mae mwy na 2,573 o domenni glo segur yng Nghymru. Mae stormydd a llifogydd, sy'n dod yn fwyfwy aml a difrifol yng Nghymru oherwydd newid yn yr hinsawdd, yn gwneud tomenni glo yn fwy anniogel.

## Tomenni glo

Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud i fynd i'r afael â mater dybryd tomenni glo. Yn dilyn glawiad digynsail yn 2020, blociodd tirlithriad yn Tylorstown ddyffryn yr afon a thorri carthffos fudr, gan sbarduno Llywodraeth Cymru i raddio'r tomenni hyn yn gategorïau mewn bandiau yn seiliedig ar eu bygythiad i ddiogelwch y cyhoedd. Fis Tachwedd diwethaf, yn ystod Storm Bert, llithrodd tomen lo arall – y tro hwn yng Nghwmtyleri, Blaenau Gwent – a bu'n rhaid gwacáu'r trigolion.

Ym mis Rhagfyr 2024 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fil yn cynnig awdurdod newydd i atal tomenni segur rhag bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd.

Mae maint y broblem a'r effaith ar gymunedau a bywyd gwyllt yn gofyn am arian cyhoeddus gan lywodraeth y DU i wneud tomenni peryglus yn ddiogel (gweler ein hymateb i ymgynghoriad y Y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) yma).

Nid oes gan awdurdodau lleol unigol y gallu, yr arbenigedd na'r cyllid angenrheidiol i wneud hyn ar eu pen eu hunain. Os nad oes digon o arian cyhoeddus ar gael, y risg yw y bydd cwmnïau preifat yn camu i'r adwy i lenwi'r bwlch hwn ac yn cynnig 'atebion' yn seiliedig ar elw ariannol o dynnu a gwerthu'r glo, yn hytrach na dull sy'n rhoi diogelwch a lles yn gyntaf ac yn blaenoriaethu tomenni peryglus sy'n peri risg i gymunedau.

Rydym eisoes yn gweld y sefyllfa hon yn codi gyda dwy o'r tomenni ym Medwas yn ardal Cyngor Caerffili. Er enghraifft, nid oes unrhyw gynlluniau i fynd i'r afael â'r domen sydd agosaf at gartrefi pobl, sef y pryder mwyaf i drigolion Bedwas. Mae gan y domen honno wastraff o weithfeydd golosg, ac nid o bwll glo, felly nid yw'n cynnwys unrhyw lo, ac felly nid oes ganddi botensial o ran elw. Os gwelir y dull a argymhellir gan ERI Reclamation Ltd i adfer tomenni Bedwas fel ateb i reoli tomenni glo segur ar draws meysydd glo de Cymru, gallai ddatblygu i fod yn ddiwydiant glo newydd peryglus – fel y gwelsom gyda chloddio glo brig a'i ôl-effeithiau a'i etifeddiaeth ar gymunedau a thirweddau yn y degawdau diwethaf.

Byddai diwydiant cloddio glo arall yng Nghymru yn arwain at echdynnu miliynau o dunelli o lo, allyriadau sy'n dinistrio'r hinsawdd, a cholli safleoedd natur ledled y wlad, gyda chanlyniadau dinistriol i'n hinsawdd, ein bywyd gwyllt, a'n cymunedau lleol. Byddai hefyd yn wrthgynhyrchiol. Mae tywydd eithafol, a achosir gan newid yn yr hinsawdd, yn gwneud tomenni glo presennol yn llai sefydlog, felly byddai ychwanegu allyriadau nwyon tŷ gwydr pellach i'r atmosffer yn eu gwneud yn fwy anniogel.

Mae llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd yn torri allyriadau'r DU 81% erbyn 2035 (yn seiliedig ar lefelau 1990) fel rhan o ymdrechion rhyngwladol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Mae targed 2035 yn arwydd pwysig o arweinyddiaeth hinsawdd fyd-eang. Mae caniatáu i ddiwydiant glo arall ffynnu yng Nghymru yn tanseilio'r ymrwymiad polisi hwn.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi £25 miliwn i wneud tomenni glo Cymru yn ddiogel. Fodd bynnag, amcangyfrifir y bydd y gost o adfer tomenni glo dros y degawd nesaf yn £600m.

***Er mwyn cefnogi'r gwaith o adfer hen safleoedd diwydiannol ymhellach, ac atal diwydiant glofaol arall yng Nghymru, rydym yn galw ar y Pwyllgor Materion Cymreig i annog llywodraeth y DU i dalu'r gost lawn o adfer tomenni glo peryglus.***

## Tir halogedig

Mae pobl yn dod yn fwy ymwybodol o effeithiau iechyd cemegau yn ein pridd a'n dŵr, fel y gwelir yn y nifer cynyddol o straeon yn y cyfryngau, ond ychydig o weithredu sydd wedi bod.

Mae rhai cynghorau yn Lloegr yn cefnogi Cyfraith Zane, sy'n cynnig mesurau i fynd i'r afael â'r argyfwng tir halogedig yn y DU. Mae'r gyfraith arfaethedig wedi'i henwi ar ôl bachgen un ar ddeg oed o'r enw Zane Gbangbola, y mae ei rieni'n honni y cafodd eu mab ei ladd gan nwy wedi'i olchi allan o hen safle tirlenwi yn Chertsey.

Mae cemegau am byth fel PCBs a PFAS yn arbennig o broblemus gan eu bod yn hynod barhaus yn yr amgylchedd a gallant arwain at broblemau iechyd fel niwed i'r afu, clefyd thyroid, gordewdra, materion ffrwythlondeb a chanser.

Canfu arolwg gan Uned Ymgynghorol Amgylcheddol Prifysgol Lerpwl ar gyfer y Swyddfa Gymreig ym 1988 fod 749 o safleoedd halogedig yng Nghymru. Mae'r set ddata wedi'i digideiddio a gellir ei chanfod yma.

Nid ydym yn gwybod a yw'r safleoedd ar restr 1988 wedi'u hadfer yn iawn oherwydd bod cynghorau'n defnyddio'r system gynllunio yn hytrach na delio â'r mater drwy Ran 2A Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Fel y gwelsom gyda Ffos y Fran, gall hyn arwain at drychineb os na chaiff datblygwyr eu dwyn i gyfrif yn ddigonol – ac ar hyn o bryd nid oes gan Gymru gorff gwarchod amgylcheddol parhaol.

Er bod y llygredd hwn yn dyddio'n ôl ddeng mlynedd ar hugain neu fwy, nid yw'r sefyllfa wedi diflannu. Mewn arolwg ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2013, nododd awdurdodau lleol fwy na 10,300 o safleoedd tir halogedig yng Nghymru. Mae'n bosibl bod y cynnydd yn nifer y safleoedd oherwydd bod cynghorau wedi cadw cofnod ar ôl 1990 pan gyflwynwyd y ddeddfwriaeth tir halogedig. Yr halogion mwyaf cyffredin oedd

benso(a)pyren, plwm, ac arsenig, a nodwyd pob un ohonynt mewn dros 60% o safleoedd tir halogedig a bennwyd.

Yn 2021 canfu data gan Cyfoeth Naturiol Cymru a ddadansoddwyd gan Greenpeace fod cemegau peryglus fel nwy mwstard a cyanid wedi'u claddu o dan dros 1500 o safleoedd tirlenwi segur ledled Cymru. Mae Paul Johnson o Greenpeace wedi eu galw yn 'fom amser sy'n ticio.'

Canfu ymchwil diweddar gan yr Athro Macklin, Athro ym Mhrifysgol Lincoln, a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cymreig y llynedd, fod 6% o boblogaeth Cymru yn byw ger tir sydd wedi'i halogi gan fwyngloddio metel hanesyddol.

Gellir dod o hyd i PCBs, grŵp o 'gemegau am byth' y profwyd eu bod yn rhai carcinogenig, mewn safleoedd amrywiol yng Nghymru, gan gynnwys chwareli Brofiscin a Maendy, Penrhos a Thŷ Llwyd yng Nghaerffili, y ffatri gemegau yng Nghasnewydd a Rhiwabon yn Wrecsam. Gollyngodd y gorfforaeth gemegau Americanaidd, Monsanto, wastraff gwenwynig mewn llawer o leoliadau yn y 1960au a'r 70au. Dim ond dau sydd wedi'u dynodi gan yr awdurdod lleol fel tir halogedig a'u hadfer - chwarel Brofiscin yn Rhondda Cynon Taf a Phenrhos yng Nghaerffili. Yng Nghaerffili cafodd y gwastraff ei symud i safle tirlenwi Trecati ym Merthyr Tudful.

## Ein hymchwil

Mae'n ofynnol i bob cyngor gadw cofrestr gyhoeddus o safleoedd tir halogedig a'r gwaith adfer a wneir. Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru yn cynnal ymchwil i sut mae awdurdodau lleol yn cyflawni'r ddyletswydd ar dir halogedig o dan y Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 2A.

Rydym yn aros am ymatebion gan gynghorau Pen-y-bont ar Ogwr, Torfaen a Rhondda Cynon Taf. Mae ymatebion gan gynghorau eraill yng Nghymru yn awgrymu diffyg cysondeb yn y wybodaeth a gofnodwyd ac mae cyfanswm y safleoedd halogedig ar draws y siroedd hynny yn ymddangos yn amheus o isel – dim ond 57.

Mae ymchwil Macklin, a oedd yn canolbwyntio ar orllewin Cymru, yn darparu digon o dystiolaeth o lygryddion niweidiol fel plwm. Ac eto nid oes unrhyw safleoedd halogedig o gwbl ar y cofrestrau ar gyfer Ceredigion, Sir Gaerfyrddin nac Abertawe. Mae'n anodd credu nad oes unrhyw dir yn y siroedd Cymreig hyn sy'n bodloni'r diffiniad o dir halogedig.

Yng Nghastell-nedd Port Talbot mae dau safle tir halogedig ar gofrestr yr awdurdod lleol, a dim ond un safle oedd ar gofrestr Caerdydd. Yng Nghaerffili roedd pum safle ar y gofrestr ond dengys cofnodion adferiad ar gyfer rhai o'r rhain yn unig, tra nad oedd chwarel Tŷ Llwyd ar y rhestr. Eto, yn wyneb natur ddiwydiannol y siroedd hyn, mae'n annhebygol mai dim ond 8 safle fyddai'n cwrdd â'r diffiniad o dir halogedig.

Roedd rhai awdurdodau lleol, fel Abertawe a Sir Benfro, yn cadw cofrestrau o "dir a allai fod yn halogedig", ond ni chawsant eu hasesu o ran risg felly gallent fod yn risg i iechyd pobl ac i fywyd gwyllt lleol o hyd.

Yn ôl deddfwriaeth tir halogedig 1990, dylai'r cofrestrau hyn fod ar gael i'r cyhoedd, ac eto nid oedd y wybodaeth ar gael yn rhwydd gan y rhan fwyaf o gynghorau. Bu'n rhaid i Gyfeillion y Ddaear Cymru anfon ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth i gael y wybodaeth hon,

sy'n golygu nad yw'r data yn hygyrch i'r rhan fwyaf o drigolion ac aelodau'r cyhoedd. Roedd un o'r cynghorau hyd yn oed eisiau codi tâl am y gwasanaeth. Mae gan bobl hawl i wybod a ydynt yn byw yn agos at safle halogedig a allai effeithio ar eu hiechyd.

Mae'r DU yn rhan o Gonfensiwn Aarhus, sy'n datgan bod gan y cyhoedd hawl i dderbyn gwybodaeth amgylcheddol a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus.

## Problemau gyda'r system bresennol

Mae ein hymchwil a'n trafodaethau gydag ymgyrchwyr lleol wedi ein harwain i'r casgliad nad yw'r system bresennol yn gweithio'n iawn, ac nad yw pobl a natur yn cael eu hamddiffyn o ganlyniad.

Er mwyn bodloni'r diffiniad presennol o dir halogedig rhaid i ffynhonnell, llwybr a derbynnydd fod yn bresennol, yn unol â Rhan 2A o ddeddfwriaeth 1990 a thystiolaeth o 'niwed sylweddol'. Mae arweiniad atodol Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn 2012, fodd bynnag, yn gosod y bar yn uwch, gan nodi bod yn rhaid cael tystiolaeth o 'niwed sylweddol i iechyd pobl' neu 'posibilrwydd o niwed sylweddol i iechyd pobl' er mwyn i safle gael ei ddynodi'n halogedig. Mae'r canllawiau hyn yn diflaenoriaethu byd natur ac yn methu ag ystyried effaith llygredd yn mynd trwy'r gadwyn fwyd – ac o bosibl yn cynyddu oddi mewn iddi - a allai effeithio ar iechyd pobl.

Mae Tŷ Llwyd yng Nghaerffili, a oedd yn ddiweddar yn destun "Buried: The Last Witness", podlediad gan y BBC gyda Michael Sheen, yn amlygu problem arall – y diffyg cyllid sydd ar gael i gynghorau ymdrin â safleoedd etifeddol. Mae profion gan nifer o sefydliadau uchel eu parch wedi dangos lefelau uchel o PCBs yn y safle gwastraff gwenwynig hwn. Er hynny, cafwyd canlyniadau gwahanol gan brofion gan y cyngor, gan arwain y cyngor i'r casgliad nad yw'r safle'n bodloni'r diffiniad o dir halogedig. Mae cynghorwyr lleol yn amau pa mor ddibynadwy yw data profion y cyngor.

Mae cynghorau fel Caerffili mewn sefyllfa anodd. Fel gyda llawer o safleoedd, nid yw'r cwmni sy'n gyfrifol am y llygredd, sef Monsanto yn yr achos hwn, yn bodoli mwyach, ac ni all y cyngor fforddio talu'r costau adfer eu hunain.

Pan ddigwyddodd y llygredd cyn datganoli, cyfrifoldeb llywodraeth y DU yw gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ariannol i awdurdodau lleol i gadw pobl a natur yn ddiogel. Rhaid i gynghorau gael mynediad at gyllid digonol i adfer safleoedd etifeddol peryglus.

***Rydym yn argymell bod y Pwyllgor Materion Cymreig yn annog llywodraeth y DU i gefnogi ymchwiliad annibynnol i dir halogedig yng Nghymru i asesu maint ac effaith y mater hwn ac effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth bresennol.***

***Credwn y dylai llywodraeth y DU ariannu'r gwaith o adfer safleoedd etifeddol eraill yn ogystal â thomenni glo.***

## 5. A yw dad-ddiwydianeiddio yn broses barhaus, a sut y gallai effeithio ar rôl Cymru yng nghenhadaeth twf Llywodraeth y DU?

Mae adfer safleoedd cyn-ddiwydiannol yn darparu cyfleoedd cyflogaeth i helpu ein trawsnewidiad gwyrdd a theg a gwella bioamrywiaeth.

Mae safleoedd gwastraff glofeydd, er enghraifft, yn cynnal cynefinoedd a bywyd gwyllt o bwysigrwydd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sylweddol. Mae yna ar hyn o bryd 99 o domenni glo yng Nghymru sydd o fewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) dynodedig, a 32 arall sy'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA). Mae tomenni glo yn cynnig lloches i gymunedau amrywiol o adar, mamaliaid, amffibiaid, ymlusgiaid, planhigion, ffyngau, cennau ac infertebratau fel gwenyn, chwilod a phryfed cop.

Mae hen byllau a thomenni glo yn gyforiog o fywyd gwyllt, a gallent ddod yn barciau gwledig, gan fod o fudd i bobl a byd natur a denu twristiaid. Mae Parc Penallta yng Nghaerffili yn stori llawn llwyddiant. Ysgrifenna Mannau Gwyrdd Caerffili: "Wedi'i gerfio o hen domen lo, mae Parc Penallta yn adnabyddus fel 'y lle sydd â'r ceffyl'. Fel un o gloddweithiau ffigurol mwyaf y wlad, mae "Swltan y Ferlen Pwll Glo" yn denu ymwelwyr o bell ac agos sy'n dod i'w edmygu."

Mae gan y safleoedd hyn hefyd y potensial i ddod yn ffermydd solar neu wynt a chyfrannu at ein trawsnewidiad gwyrdd, er bod yn rhaid ymgynghori'n briodol â chymunedau lleol a rhaid bod modd iddynt elwa o'r datblygiadau. Mae rhai cyn-byllau glo yn gwresogi cartrefi pobl trwy wres geothermol. Yng Ngorllewin Lloegr mae cyn-byllau glo yn cael eu mapio ar gyfer eu potensial ynni adnewyddadwy.

Gallai darparu cyllid i adfer y safleoedd hyn roi hwb i dwristiaeth gynaliadwy Cymru. Dyma ragor o enghreifftiau o wledydd eraill.

Mae twf ac amgylcheddaeth yn 'gydnaws', ond mae dull "twf yn bennaf" yn beryglus o ran diffyg edrych i'r dyfodol ac yn ddrwg i bobl a'r blaned. Mae'n rhaid i genhadaeth twf llywodraeth y DU fod â thrawsnewid yn ganolog iddi.

Y cymunedau sy'n talu'r pris am etifeddiaeth ddiwydiannol Cymru yw'r cymunedau hynny lle gwelwn yr anghydraddoldebau uchaf. Gallai dad-ddiwydianeiddio, o'i wneud yn wael, waethygu'r anghydraddoldebau hyn, fel y gwelsom ym Mhort Talbot lle mae cau ffwrneisi chwyth yn golygu bod miloedd o bobl wedi colli eu swyddi a'u hincwm.

Rhaid i lywodraeth y DU sicrhau bod buddsoddiad mewn diwydiannau trwm yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n gynaliadwy i bobl a'r blaned, ac mewn ymgynghoriad â chymunedau a gweithwyr lleol.